



Mae bore 'ma yn oedfa i bob oed dan ofal Heulyn a Catrin Rees. Sian Elin sydd wrth y piano. Colin a Nia oedd yn croesawu

Daw 2 rhestr rownd y bore 'ma, ac mae croeso i chi dorri eich henw arnyn nhw. Un yw rota blodau'r flwyddyn. Os oes yna Sul sydd yn golygu rhywbeth i chi yn bersonol, teimlwch yn rhydd i gynnig y blodau ar gyfer y Sul hwinnw, neu jyst rowch flodau i helpu gyda'n hoedfaon.

Yr ail rhestr yw'r rota i bobl gynnig croesawu yn y drws ffrynt o 10.30 i 10.45. Os ydych wedi bod i'r capel mwy na hanner dwsin o weithiau, mae croeso i chi fod yn rhan o'n tim croesawu! Plîs torrwrch eich henw ar y rota. Diolch.

Y Suliau nesaf.....

Ionawr 28ain – Y Parchg. Gethin Rhys gyda Rhiannon Humphreys yn llywyddu a Judith a John yn croesawu

Chwefror 4ydd – Oedfa pentrefi Tonteg a Phentre'r Eglwys. Gwenfil yn croesawu

Chwefror 11eg – Emlyn Davies, gyda Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu ac Eirian a Keith yn croesawu

Chwefror 18eg – Sul i'r Teulu. Carey a Loreen y croesawu.

Chwefror 25ain – y Parchg. Gethin Rhys gyda Carol Williams yn llywyddu

Mawrth 4ydd - Pentref Creigiau

Mawrth 11eg – Y Parchg. Aled Edwards

Amdani yn 2018!

Os nad ydych yn aelod o'r eglwys, ac yr hoffech ddangos eich cefnogaeth wrth ddod yn aelod, mynnwch air gydag Eirian Rees neu gyda Gwilym yr ysgrifennydd.

Cofiwch am wybodaeth, ewch at y wefan, www.tabernacl.org neu Gwilym Huws: 07710 237327 gehpengwern@yahoo.co.uk/

Newyddion trist

Daeth y newyddion am farwolaeth Dai Davies, Tonyrefail fu'n gefnogwr brwd i'n capel tra bu'n ddigon iach i ddod lawr ar y Sul, yn y blynyddoedd wedi cau ei gapel yn y Ton. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu.

Llongyfarchiadau mawr i Lowri Leeke ar enedigaeth Ffion Lois.

Dymunwn yn dda i Twm, mab Ceri a Lloyd, ac wŷr Allan, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwellhad buan Twm!



Bwrdd y Cyfarwyddwyr, nos Fawrth 23 Ionawr. Adroddiadau i'w cyflwyno o.g.y. dda neu fater i'w godi at Gwilym Huws, Ysgrifennydd Capel y Tabernacl, (gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327) *erbyn dydd Llun 22 Ionawr fan bellaf.* Diolch

**Cofiwch Facebook newydd Tabernacl
Efail Isaf a gyrrwch eich
cyhoeddiadau at
geraintrees@hotmail.com**

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL
Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi
ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu
gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a
gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd
yr Iesu

Fe godwyd to y Carpenters ym mis
Rhagfyr, felly dyma drefnu noson arall o
ganu yn mis Mawrth. Mae'r noson yn
agored i bawb - dewch i ganu, neu
dewch ag offeryn, neu dewch i
fwynhau'r gerddoriaeth. Awyrgylch
anffurfiol a chyfle i ganu a chyd-
ganu! Nos Sadwrn, 24 Mawrth, 8pm -
Carpenters, Efail Isaf

CYNGERDD/CONCERT

CAPEL SALEM, CANTON, CAERDYDD
CÔR MEIBION TAF CAERDYDD
CÔR MEIBION Y PENRHYN BETHESDA

UNAWDWYR/SOLOISTS
STEFFAN JONES A OWAIN ARWEL DAVIES



Nos Wener, Chwefror yr 2ail am 7:30pm o'r gloch
Friday 2nd of February at 7:30 pm

Tocynnau £10 a £ 5 I blant
£10 for adults and £5 for children

Ar gael oddi wrth aelodau Côr Meibion Taf a Chôr Y Penrhyn
Tickets available from Côr Meibion Taf and Côr Y Penrhyn
ac wrth y drws /and on the night at the chapel
Neu gan/or from Huw Williams 07702214406

**Tonteg, Pentre'r Eglwys a Llanilltud
Faerdref**

A wnaiff aelodau o'r pentrefi hyn aros
am 5 munud ar y diwedd i weld Keith
a Rhiannon. Diolch



**Cofiwch y gallwch adael eitemau i'r
cartref, dillad a theganau i Adref yn
llofft y capel. Diolch**

CYLCH CADWGAN

Nos Iau 25 Ionawr 2018 am
8.00pm

Dr HYWEL GRIFFITHS
yn siarad ar y testun
'Llif Coch Awst – barddoniaeth a
daearyddiaeth'
yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
Cydnabyddir cefnogaeth
Llenyddiaeth Cymru

**Cwrs coginio undydd
gyda Loving Welsh Food
yng Nghanolfan Garth Olwg**
10:00-3:30 ~ 27.01.17 £30 y person

10:00 - 12:30 Bore o goginio tapas
Cymreig, sef Cawl Cennin, Selsig
Morgannwg, Cacenau bara lawr,
Caws Pob a Madarch, Chorizo a
Seidr



12:30 - 13:30
Cyfle i eistedd lawr i fwyta a
mwynhau'r bwyd.



13:30 - 15:30
Prynhawn o goginio bisgedi/
cacennau blasus

Cewch fynd a'r bisgedi/cacennau
adre gyda chi.

Cysylltwch â ni i gadw lle
Canolfan Garth Olwg, Heol St Illtyd,
Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ
01443 570075
www.gartholwg.org

